Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am wybodaeth fanylach am sut mae BSE yn cael ei reoli yn y wlad hon, darllenwch daflen yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar BSE a Chig Eidion/Egluro Mesurau Rheoli Newydd

Mae mwy o wybodaeth am BSE ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn www.food.gov.uk/bse

Am ragor o gopïau o'r daflen hon, cysylltwch â Chyhoeddiadau yr Asiantaeth Safonau Bwyd
ffôn: 0845 606 0667;
ebost: foodstandards@ecgroup.uk.com

Am fwy o wybodaeth am yr Asiantaeth Safonau Bwyd ewch i: www.food.gov.uk neu www.eatwell.gov.uk

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei hargraffu, ond gall newid.

Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

I archebu copïau pellach o'r daflen hon neu gyhoeddiadau eraill a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth, cysylltwch â Chyhoeddiadau yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn	0845 606 0667
minicom	0845 606 0678
ffacs	020 8867 3225
ebost	foodstandards@ecgroup.uk.com

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Hydref 2005.
Dyluniwyd gan Bell. Argraffwyd gan CW Print.

© Hawlfraint y Goron 2005
Argraffwyd yn Lloegr 1k Tachwedd/05 FSA/1016/1105

www.eatwell.gov.uk
www.food.gov.uk

FOOD STANDARDS AGENCY

BSE a Chig Eidion
Arweiniad Byr i Fesurau Rheoli Newydd

Mae BSE mewn gwartheg, a elwir weithiau yn ‘glefyd y gwartheg gwallgof’, bellach ar ei lefelau isaf yn y DU ers dechrau cofnodi ym 1988. Mesurau llwyddiannus y Llywodraeth i reoli’r clefyd ac i wneud cig eidion yn fwy diogel i bobl ei fwyta sy’n gyfrifol am hyn.

Y prif fesur rheoli yw tynnu rhannau sy’n fwyaf tebygol o gynnwys BSE o’r fuwch wrth baratoi’r anifail ar gyfer bwyd fel nad yw’r rhannau hynny yn cyrraedd ein bwyd. Mae hyn yn dileu bron y cyfan o’r risg (dros 99%) a allai fod yn bresennol mewn buwch sydd â BSE.

Mae mesur rheoli arall yn ei gwneud hi’n anghyfreithlon i fwydo gwartheg ar ddeunydd a allai ledaenu BSE. Mae hyn wedi golygu mai ychydig iawn o wartheg a allai fod wedi’u heintio bellach.

Mae trydydd mesur rheoli wedi gwahardd gwartheg dros 30 mis oed rhag cael mynediad i’r gadwyn fwyd, gan nad yw BSE yn datblygu’n llawn mewn gwartheg nes eu bod dipyn hŷn. Gan fod achosion o’r clefyd wedi gostwng yn sylweddol mae’r mesur rheoli hwn yn cael ei ddisodli gan system brofi. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw wartheg dros 30 mis oed yn cael mynediad i’r gadwyn fwyd oni bai eu bod wedi profi’n negyddol am BSE.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn credu bod y mesurau BSE yn diogelu’r cyhoedd yn dda iawn ac y bydd y risg o drosglwyddo’r haint BSE i’r gadwyn fwyd yn parhau’n isel iawn.

Bu’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn adolygu’r mesurau rheoli BSE dros ddwy flynedd gan ddefnyddio cyngor gwyddonol arbenigol annibynnol. Mae’r Llywodraeth wedi derbyn cyngor gan yr ASB y bydd profion am BSE yn diogelu defnyddwyr i lefel dderbyniol am y rhesymau canlynol:

- Bod achosion o BSE yn parhau i ostwng
- Bod y mesurau rheoli yn effeithiol
- Bod y System Brofi am BSE mewn gwartheg hŷn yn ddibynadwy
- Bod yna fesurau diogelwch ar waith i fonitro a gorfodi’r holl fesurau rheoli

Pwy sydd wedi cynhyrchu’r daflen hon?

Mae’r daflen yn cael ei chyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd, adran annibynnol o’r llywodraeth sy’n gweithredu ledled y DU, yn rhoi cyngor a gwybodaeth i’r cyhoedd a’r llywodraeth am ddiogelwch bwyd, maethiad a diet.

Sefydlwyd yr Asiantaeth i ddiogelu buddiannau defnyddwyr. Ei hegwyddorion arweiniol yw:

- rhoi’r defnyddiwr yn gyntaf
- gweithredu’n agored ac yn hygyrch
- bod yn llais annibynnol